

Tasg 2

Dros yr haf

Dros yr haf:

- Mae rhai pobl yn dod i Gymru ar wyliau.
- Mae rhai pobl yn mynd i lan y môr am y dydd.
- Mae rhai pobl yn mynd i weld hen adeiladau.
- Mae rhai pobl yn mynd i barc thema neu i gig neu i wyl gerddoriaeth.

Mae llawer o bethau i wneud yng Nghymru.

Edrychwch ar y gwefannau yma a gwnewch y tasgau.

1. Ewch i: <http://croeso.cymru/things-to-do/activities/active-service>

a. Sgimiwch y dudalen.

Edrychwch ar y lluniau a'r is-benawdau.

Beth sy i wneud yng Nghymru?

Ble?

Llenwch y grid yma:

Beth:	Ble:

Geirfa

hen	old	sgimio	(to) skim
adeiladau	buildings	is-benawdau	sub-headings

b. Dangoswch y lleoedd ar y map ar dudalen 4.

Os dydych chi ddim yn siŵr ble maen nhw, chwiliwch mewn atlas neu ar y we.

2. Ewch i: <https://eisteddfod.cymru/>

a. Sgimiwch y dudalen.

b. Atebwch y cwestiynau yma.

- Ble mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni?

- Pryd mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni?

- Beth ydy'r geiriau Cymraeg yn y linciau ar dop y sgrin?

c. Cliciwch ar y linc **tocynnau**.

ch. Sganiwch y wybodaeth ac atebwch y cwestiynau yma:

Faint ydy tocyn wythnos i berson ifanc cyn Gorffennaf 1?	
Faint ydy tocyn wythnos i berson ifanc ar ôl Gorffennaf 1?	
Faint ydy tocyn wythnos i deulu (1 oedolyn a dau blentyn) ar ôl Gorffennaf 1?	
Faint ydy tocyn wythnos i deulu (2 oedolyn a dau blentyn) cyn Gorffennaf 1?	

Geirfa

eleni	this year	cyn	before
geiriau	words	ar ôl	after

d. Cliciwch ar y sioe sleidiau – y saeth i’r dde – ac edrychwch ar y lluniau’n ofalus.

Cliciwch ar y linc Oriel hefyd.

Beth sy’n digwydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol?

Gwnewch nodiadau.

Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau eich partner chi.

dd. Ysgrifennwch daflen i berswadio pobl i fynd i’r Eisteddfod Genedlaethol.

Dwedwch:

- ble
- pryd
- beth sy’n digwydd.

Cofiwch berswadio!

laith perswadio:

Cofiwch:		
Cwestiynau:	Ydych chi’n hoffi ... ?	Hoffech chi ... ?
Gorchmynon:	Dewch i ...	Cofiwch eich ...
Disgrifio:	Mae’n ddiddorol!	Mae’n anhygoel!

Geirfa

saeth	arrow	nodiadau	notes
digwydd	(to) happen	taflen	leaflet



Map o Gymru

